Sport Wales' new strategy in light of the new Vision for Sport in Wales: It is important to put the AYPPs at the heart of the new strategy:

❖ The AYPPS should be central to the objectives and outcomes to give effect to the Vision, including the positive collateral benefits which sport has for young people;

❖ The role of the AYPPs should be emphasised to leverage and optimise the use of both the natural resources assets of Wales and the leisure facilities of Wales for the benefit of young people's enjoyment and social and physical development;

❖ Physical literacy should be the key conceptual underpinning of AYPPs within the strategy to express the breadth and purpose of physical activity as part of children's social and physical development;

❖ The relationship of the AYPPs to the role and work of the NGBs should have more weight. The AYPPs contribute new players and members at community and club level. Some NGBs are keen to widen participation, develop relationships with local authorities and schools, and optimise the role of clubs and community sport. Positive work is underway in this regard. Sport Wales has also prioritised engagement with the NGBs as part of the new regional arrangements. But this remains an important area for development;

❖ There should be more explicit connectivity of community sport and the AYPPs (including within regional approaches) to elite sport within the strategy to ensure that the potential benefits are better leveraged and understood; and

❖ In building the AYPPs into their future strategy, Sport Wales should seek actively to connect them to the Well-being Goals and objectives of the Public Services Boards and the scheduled bodies.

The AYPPs and Education: This is a key area, and the synergies can be optimised if Sport Wales and its partners are able to:

❖ Develop a clear and positive synergy between the Vision for Sport and the AYPPs with the new curriculum and its associated accountability framework;

❖ Clarify the contribution which Sport Wales can make to further development and implementation of the new curriculum including in relation to physical literacy and the education workforce skills development; and

❖ Consider developing a 'Healthy and Active Standard' for schools jointly with partner agencies and supporting its implementation in schools. Such a Standard could also form an important part of the accountability framework for the new curriculum.

Making the Connections

Sport and physical activity have real value to young people in and of itself, for the sheer enjoyment it can bring in its direct physical, psychological, and social benefits. The AYPPs are central to helping young people access activities which are relevant and enjoyable to them, and in helping them onto a pathway to sustained activity and benefit in later life. From a policy point of view however, it is also the collateral benefits which need to be recognised and mainstreamed. In the diagram below, we have captured some of the major connections and reinforcements which the AYPPs do already make in part and could make much more effectively.

The AYPPs are connected to leisure services, sports clubs, community provision, and schools, though in each case the connections could be strengthened – and as the diagram highlights, the notion of 'physical literacy' should surround and inform those connections. This is also the case in relation to the two major policy domains of health and of education, for which sport and physical activity has much to offer in achieving mainstream health and educational objectives. Finally, as we have shown, when guided and delivered with the 'ways of working' firmly in mind, the AYPPs are also capable of giving effect to major parts of the Vision for Sport in Wales, and of Sport Wales' new delivery model.

Figure 3

Sport Wales' AYPPs – Connected Policy Domains



February 2019

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Eitem 3

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

3 Mai 2019

Annwyl Nick

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2017-18

Ysgrifennaf mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2017-18. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull o gynnwys gwybodaeth hygyrch a thryloyw yn ein dogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Hefyd, hoffwn achub ar y cyfle hwn i sicrhau'r Pwyllgor ein bod yn parhau i fod mor ymrwymedig ag erioed i ddarparu sicrwydd drwy waith craffu ac archwilio allanol, yn ogystal â'n fframwaith llywodraethu mewnol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol wrth ategu ein hyder ein bod yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol wrth ddarparu ein gwasanaethau i'r Cynulliad.

Rhoddir sylw llawn i argymhellion eich Pwyllgor ynghylch y Comisiwn (Argymhellion 2-10) yn yr atodiad. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw fater yn yr atodiad, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Yn gywir

Suzy Davies

cc Comisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2017-18

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod targedau Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys mesurau amgen ar gyfer ei berfformiad ariannol, gan sicrhau trylwyredd wrth reoli ei gyllid. Gallai'r rhain adlewyrchu sut y mae'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiwn eu defnyddio a'r rhai ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu.

Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol Newydd

Roedd y Comisiwn wedi trafod a chytuno ar gyfres newydd o ddangosyddion perfformiad corfforaethol, i ddod i rym ar 1 Ebrill 2019.

Mae'r dangosyddion perfformiad newydd yn parhau i gyd-fynd â nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, ond maent yn mabwysiadu dull gweithredu diwygiedig gyda mwy o ffocws ar y canlynol:

a. Cyfres o fesurau strategol o berfformiad corfforaethol cyffredinol;

b. Cyfres o fesurau sy'n darparu hyblygrwydd i ddatblygu perfformiad lle y mae angen gwella neu risg o orffwys ar ein bri.

Croesawodd y Comisiynwyr yn arbennig ddatblygu'r dangosyddion hyblygrwydd, a fydd yn ymdrin â gwaith caffael gyda chyflenwyr o Gymru, absenoldeb oherwydd salwch, gwaith ymgysylltu, cynrychiolaeth pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng ngweithlu'r Comisiwn, helpu'r Aelodau i weithio yn eu dewis iaith a lleihau teithiau mewn ceir sy'n ymwneud â busnes.

Cytunodd y Comisiynwyr y dylid adrodd ar y ddwy gyfres o ddangosyddion yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn hytrach nag mewn adroddiad perfformiad ar wahân.

Sut y mae'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiwn eu defnyddio a'r rhai ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu

Mae'r Gyllideb ar gyfer 2019-20 eisoes yn cynnwys llinellau ar wahân ar gyfer cyllideb weithredol y Comisiwn a chyllideb ar gyfer penderfyniad y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Yn hanesyddol, mae'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau wedi cyflawni tanwariant y mae'r Comisiwn wedi'i ddefnyddio i gyllido prosiectau penodol. Er mwyn ymdrin ag argymhellion y Pwyllgor Cyllid a chynyddu tryloywder, mae cyllideb 2019-20 yn cynnwys y canlynol:

- ni chaiff tanwariant yn erbyn llinell gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn 2019-20 ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru a bydd ar gael i'w gario ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.
- mae llinell ariannu prosiect newydd wedi'i chynnwys, yn ogystal â chyllideb weithredol y Comisiwn. Mae hyn yn disodli'r gronfa fuddsoddi flaenorol a ariannwyd o danwariant o ran penderfyniadau a gweithredu.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad yn gosod targed ehangach a mwy uchelgeisiol ar gyfer arbedion cost neu effeithlonrwydd sy'n adlewyrchu ystod lawn ei weithgareddau yn hytrach nag ymwneud â'r contractau y bydd yn eu hadnewyddu yn ystod y flwyddyn yn unig. Dylid llunio adroddiad ar berfformiad ar sail y targed bob blwyddyn yng nghyfrifon Comisiwn y Cynulliad.

Strategaeth y Comisiwn o hyd, wrth osod ei gyllideb flynyddol, yw cynnig cyllideb sydd yr isafswm sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ei ofynion statudol a'i nodau. Mae'r newidiadau diweddar y mae'r Comisiwn wedi'u gwneud i wella tryloywder, drwy nodi buddsoddiadau prosiect angenrheidiol a thrwy wahanu'r gyllideb weithredol oddi wrth gyllideb y penderfyniad, yn atgyfnerthu'r strategaeth hon, sef dim ond gofyn am yr isafswm adnoddau sy'n ofynnol. Byddwn yn parhau i weithio i ysgogi effeithlonrwydd drwy ein gweithgarwch caffael pan gaiff contractau eu hadnewyddu a phan gaiff rhai newydd eu gosod, gan ein bod o'r farn bod hyn yn arwydd o lywodraethiant da. Fodd bynnag, o ystyried y strategaeth hon, nid ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol nac, mewn gwirionedd, yn effeithlon gosod targed mympwyol ar gyfer arbedion cost blynyddol ac, yn wir, rydym yn teimlo y gallai hyn arwain at gymhelliad gwrthnysig i gynyddu'r gyllideb flynyddol dim ond i gyflawni arbediad diwedd blwyddyn a chyrraedd y targed.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu i'r Pwyllgor, pan fo rhagor o fanylion yn hysbys, y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu ei Gynllun Ymadael Gwirfoddol, gan gynnwys sut y cafodd ei lywio gan ei Adolygiad Capasiti.

Yn wahanol i lawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus, nid yw Comisiwn y Cynulliad yn cynnig cyfleoedd ymadael gwirfoddol yn rheolaidd. Y tro diwethaf i gynllun o'r fath fod ar gael oedd yn ystod 2015/16. Roedd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol presennol yn agored i geisiadau rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Ionawr 2019. Nodau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a ddeilliodd yn uniongyrchol o'r adolygiad capasiti, oedd:

- Caniatáu i'r sefydliad ymateb i newidiadau yn ei ofynion sgiliau;

- Gwella effeithlonrwydd y gweithlu;
- Hwyluso newid sefydliadol;
- Cyflawni arbedion tymor hir lle y bo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fodloni prinder sgiliau.

At ei gilydd, cafwyd 43 o geisiadau ac ystyriwyd y rhain yn erbyn meini prawf y cynllun gan Banel a oedd yn cynnwys Ymgynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn ac roedd aelod o Ochr yr Undebau Llafur a'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd yn arsylwi. Roedd asesiad y Panel o bob cais yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael drwy'r cais, wedi'i gefnogi a'i sgorio gan y rheolwr llinell perthnasol ac yn ddarostyngedig i waith cymedroli gan banel cymedroli annibynnol. Derbyniwyd 22 o geisiadau. Ystyriwyd 4 cais arall ar apêl a chawsant eu cymeradwyo ar ôl ystyried gwybodaeth ychwanegol nas rhoddwyd yn y cais. Wedi hynny, gwrthododd dau ymgeisydd gynnig y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, felly bydd 24 o staff yn ymadael erbyn mis Medi 2019.

Yn dilyn hynny, cynyddwyd y gyllideb gychwynnol o £800,000 yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol i £950,000 ac yna ei chynyddu ymhellach i £1.016 miliwn. Ar ôl cwblhau'r broses apelio ac i ymdrin â nodau'r cynllun, roedd y gost derfynol o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, ac roedd o fewn cyllideb gymeradwy Swyddfa'r Cabinet o £1.5 miliwn.

Rydym yn hyderus y dilynodd y broses yr arfer gorau ac yr ystyriwyd y gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol blaenorol yn 2015-16. Gwnaethom sicrhau y darparwyd sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ar gyfer pob cam o'r Cynllun. Credwn fod y Cynllun wedi bod yn effeithiol ac wedi cyflawni'r nodau, yn ogystal â chynnig cyfle arwyddocaol i wneud newidiadau sefydliadol gwerthfawr i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Argymhelliad 5. **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys dadansoddiad o ddata absenoldebau staff yn ei adroddiadau monitro mewnol, yn ogystal â'i gyfrifon blynyddol, i wahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl ac achosion eraill o salwch.**

Mae dadansoddiad o ddata absenoldebau staff yn cael ei fonitro gan y tîm Partner Busnes Adnoddau Dynol i'w drafod â Phenaethiaid Gwasanaeth mewn cyfarfodydd misol, ac adroddir arno yn y Tîm Arwain bob chwarter. Yn flynyddol, neilltuir cyfarfod tîm arwain i drafod absenoldeb, yr achosion, patrymau, meincnodi a chamau adfer i helpu i wella llesiant.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn cyflwyno adroddiad ar ddadansoddiad o ddata absenoldebau staff yn ôl rheswm yn ein cyfrifon blynyddol, ond byddwn yn adolygu hyn wrth lunio Adroddiad Blynyddol 2018-19.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae cyfraddau trosiant staff wedi newid dros y pedair blynedd diwethaf rhwng 2015-16 a 2018-19.

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos cyfradd y trosiant staff rhwng 2015-16 a 2018-19:

Blwyddyn	Nifer y staff ar gyfartaledd	Staff a adawodd	Trosiant
2015-16	415.95	34	8.17%
2016-17	428.96	38	8.86%
2017-18	451.21	34	7.54%
2018-19	442.55	43	9.72%

Mae ein cyfradd flynyddol o drosiant staff wedi bod yn weddol gyson dros y cyfnod hwn. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o drosiant yn iach ar gyfer amrywiaeth sefydliadol a chyfleoedd newydd i ddatblygu gyrfa. Mae trosiant blynyddol wedi rhoi cyfleoedd i ni newid y cymysgedd sgiliau mewn gwasanaethau ac ailddyrannu rhai swyddi i feysydd lle mae'r blaenoriaethau sefydliadol yn uwch, yn enwedig Brexit. At ddibenion cymharu, trosiant cyfartalog y Sector Cyhoeddus yw 15.7 y cant[1].

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am y newidiadau y mae wedi'u gwneud i'w system rheoli perfformiad, ynghyd ag asesiad o'u heffeithiolrwydd wrth gryfhau'r trefniadau.

Yn 2016, gwnaethom gyflwyno dull seiliedig ar gymhwysedd o ran gosod a monitro amcanion er mwyn asesu perfformiad yn seiliedig ar beth a oedd wedi'i gyflawni a hefyd sut y gwnaed hyn. Arweiniodd hyn at wella'r gyfradd cwblhau PMDR ac ansawdd yr amcanion a osodwyd.

[1] Labour turnover rates survey 2018

Ym mis Medi 2018 gwnaethom ddiwygio'r broses er mwyn darparu dull gweithredu symlach o ran cofnodi trafodaethau, gan alluogi rheolwyr llinell a staff i ganolbwyntio'n well ar y cynnwys. Cafodd y newid hwn adborth cadarnhaol hefyd, gydag 80 y cant o staff yn dweud bod ganddynt amcanion gwaith clir a'u bod yn cael adborth rheolaidd ar eu perfformiad, a bod eu perfformiad yn cael ei werthuso'n deg.

Gwnaethom gynnal archwiliad mewnol o'r broses rheoli perfformiad ym mis Rhagfyr 2018 ac rydym newydd gwblhau adolygiad o anghenion y dyfodol a hwyluswyd yn allanol sydd wedi rhoi argymhellion ar gyfer gwella ein prosesau rheoli perfformiad a datblygiad ymhellach.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn adeiladu ar y gwaith i ymgysylltu â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac arwain y ffordd ar draws y sector cyhoeddus drwy gynnwys, yn ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon, ddatgeliad o'r bwlch cyflog ethnigrwydd.

Rydym yn ymrwymedig i wella ein hymgysylltiad â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, drwy ein gwaith allgymorth a thrwy barhau i nodi pob cyfle i gynyddu cynrychiolaeth yng ngweithlu'r Comisiwn. Yn ddiweddar, rydym wedi ymgysylltu â Busnes yn y Gymuned i weithio gyda ni ac mae'r Comisiwn wedi cytuno ar ddangosydd hyblygrwydd newydd ar gyfer cynrychiolaeth pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu.

Fel rhan o'n Hadroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynyddol, rydym yn cyhoeddi manylion cyflogau staff yn ôl hil/ethnigrwydd. Fodd bynnag, nid ydym ar hyn o bryd yn cyhoeddi asesiad o unrhyw fwlch cyflog ethnigrwydd gan ein bod yn aros am ganlyniad ymgynghoriad diweddar Llywodraeth y DU ar yr hyn y bydd yn ei wneud i adrodd ar fylchau cyflog ethnigrwydd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2019 ac nid yw'r amserlenni ar gyfer adrodd ar ei ganfyddiadau'n hysbys ar hyn o bryd. Pan fydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn ar gael, byddwn yn trafod ei addasrwydd ar gyfer adrodd arno yn ein hadroddiad blynyddol.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn mesurau cynaliadwyedd eraill, gan gynnwys mannau gwefru, i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan ac atgyfnerthu ei rinweddau amgylcheddol.

Ar hyn o bryd, mae gennym gapasiti i wefru hyd at bedwar cerbyd trydan ar unrhyw adeg. Mae dau fan gwefru trydan ychwanegol ger y man parcio car at ddefnydd pawb i wefru'r cerbyd hwn ac i ddarparu capasiti ychwanegol.

Rydym yn codi tâl ar staff am y trydan a ddefnyddir i wefru eu cerbyd, ond rydym yn gwneud hynny ar bris y gost er mwyn sicrhau bod manteision ariannol defnyddio ceir trydan yn parhau i fod mor ddeniadol â phosibl.

Caiff y defnydd o'r holl fannau parcio ei fonitro'n ddyddiol, ac rydym mewn cysylltiad rheolaidd â defnyddwyr y cerbydau trydan i sicrhau bod y mannau gwefru'n gweithio'n effeithlon. Rydym hefyd yn mynd ati i geisio barn am ddarpariaeth mannau parcio, a pherchnogaeth staff ar gerbydau trydan fel rhan o'n harolwg teithio.

Os bydd y galw am fannau gwefru'n cynyddu'n ddigonol dros amser, bydd y Cynulliad yn gallu cynyddu darpariaeth y cyfleuster hwn er mwyn cefnogi'r rhai sydd wedi newid i gerbyd trydan.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i rannu'n ehangach unrhyw beth perthnasol a ddysgwyd o'i hymdrechion ei hun i gynyddu ei sylfaen cyflenwyr o Gymru.

Mae hyn yn mynd rhagddo ac mae'r Pennaeth Caffael wedi cael trafodaethau â staff Llywodraeth Cymru a bwriedir cynnal rhagor o drafodaethau. Rydym yn gweithio gydag Atamis (mae Atamis yn llunio adroddiadau perfformiad blynyddol ar gaffael ar draws Sector Cyhoeddus Cymru) i weld a allwn helpu i fireinio ei alluoedd adrodd ynghylch gwariant gyda chyflenwyr o Gymru. Yn olaf, rydym mewn cysylltiad â Siambr Fasnach De Cymru i gael gwybod beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi cyflenwyr o Gymru i ennill busnes gennym.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

3 Mai 2019

Annwyl Nick

Codi'r cyfyngiad ar swyddi y Sefydliad

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gyfyngiad y sefydliad ar swyddi staff. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth (Craffu ar Gyfrifon 2017-18) ar 8 Hydref 2018, gwnaethom hysbysu'r Pwyllgor fod gan y Comisiwn gyfyngiad cyffredinol o 491 o swyddi ar gyfer y sefydliad. Roeddem wedi ymrwymo i'r cyfyngiad hwn, yn ddidwyll, yn ystod gohebiaeth â'r Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2017.

Dros y 15 mis diwethaf, rydym wedi gallu bodloni'r holl ofynion a osodwyd ar y Comisiwn yn unol â'r cyfyngiad a bennwyd. Rydym wedi llwyddo i gyflawni hyn drwy flaenoriaethu sut rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael a thrwy ailddyrannu 12 swydd bresennol yn llwyddiannus o wasanaethau ar draws y Comisiwn, i gefnogi'r paratoadau ar gyfer Brexit.

Fodd bynnag, yn ein llythyr dyddiedig 20 Tachwedd 2018 i'r Pwyllgor Cyllid, gwnaethom esbonio y byddai'r dull uchod yn helpu i sicrhau 'y gall y Comisiwn barhau i ddarparu'r sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r Cynulliad drwy'r heriau penodol a ddaw yn sgil Brexit a Newid Cyfansoddiadol, tra'n parhau i weithio, cyhyd ag sy'n bosibl, o fewn cyfyngiad cyffredinol y sefydliad o 491 o swyddi.'; mewn geiriau eraill, efallai y daw adeg pan fydd angen gweithredu dull gwahanol.

Fel y nodwyd, wrth gyflwyno ein trosolwg o'r gyllideb ar ddechrau cyfnod y Cynulliad hwn, roedd yn amhosibl rhagweld effeithiau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a newid cyfansoddiadol dros y pum mlynedd, na phryd y byddem yn teimlo'r effeithiau hynny.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Rydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw erbyn hyn. Nododd ein hymarferion cynllunio capasiti ym mis Ionawr a mis Chwefror 2019 fwlch sylweddol rhwng y galw a'r capasiti, ac nad oedd bellach yn gynaliadwy parhau i ailddyrannu swyddi presennol heb effeithio'n sylweddol ar y gwasanaethau a ddarperir.

Yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2019, ystyriodd y Comisiwn gynigion i lacio cyfyngiad swyddi y sefydliad o 491 o swyddi, i ddarparu adnoddau ychwanegol, yn bennaf er mwyn cyflawni heriau Brexit. Cydnabu'r Comisiwn y pwysau ac roedd yn gefnogol mewn egwyddor, ond gofynnodd am ragor o fanylion ynghylch nifer y swyddi ychwanegol a ddisgwylir, a sicrwydd y gellid eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol.

Darparwyd gwybodaeth bellach i'r Comisiwn yn ei gyfarfod ar 1 Ebrill. Gweler y wybodaeth hon yn Atodiad 1. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Comisiwn ar gynnydd i gap y sefydliad o 6 swydd, sef newid o 491 i 497. Nodir y swyddi hyn hefyd yn Atodiad 1.

Rydym wedi ymrwymo i hysbysu'r Comisiwn ynghylch cyfyngiad y sefydliad ac unrhyw newidiadau yn ystod pob un o gyfarfodydd y Comisiwn, a byddwn yn parhau i edrych yn fanwl ar yr opsiynau i ail-flaenoriaethu swyddi mewnol, wrth iddynt ddod yn wag, er mwyn lleihau'r newid cyffredinol yn y sefydliad. .

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i roi sicrwydd i'r Pwyllgor y byddwn yn parhau i fod mor ymroddedig ag erioed i ddarparu sicrwydd trwy waith craffu ac archwilio allanol yn ogystal â'n fframwaith llywodraethu mewnol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol o ran ategu ein hyder ein bod yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, darbodus ac effeithiol wrth ddarparu ein gwasanaethau i'r Cynulliad.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir

Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Atodiad 1

Detholiad o Bapur y Comisiwn 1 Ebrill 2019.

Bu cynnydd sylweddol ym maint ac amrywiaeth y gwaith mewn perthynas â Brexit ers mis Medi 2018, gyda chynnydd ym maint y ddeddfwriaeth (yn ymwneud â Brexit ac nad yw'n ymwneud â Brexit) rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Er enghraifft, cyflwynwyd mwy o offerynnau statudol ym mis Ionawr/Chwefror 2019 nag yn ystod 2018 gyfan. Yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019, trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol swm digynsail o ddeddfwriaeth: Bil a 40 o offerynnau statudol.

Ar draws Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad mae angen cynyddu hyblygrwydd, sgiliau a gwydnwch i ymateb i'r sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o ran deddfwriaeth, a heriau eraill. Mae trefniadau staffio tymor byr wedi gweithio'n dda ond nid ydynt bellach yn gynaliadwy ac mae bwlch sylweddol rhwng y galw a'r capasiti. Fel y disgrifiwyd yn y papur diweddar i'r Comisiwn, gellir mynd i'r afael â'r galw hwn ar yr amod bod gennym rywfaint o hyblygrwydd i amrywio cyfyngiad cyffredinol presennol y sefydliad o 491, gan sicrhau nad ydym yn mynd y tu hwnt i adnoddau ariannol presennol.

Byddai'r gallu i amrywio'r cyfyngiad a'r cyfrif pennau, ochr yn ochr â'n prosesau presennol ar gyfer adolygu ac ail-ddyrannu swyddi gwag yn ein galluogi i leihau'r effaith barhaol ar y sefydliad, tra'n caniatáu i ni ddiwallu anghenion uniongyrchol. Er mwyn sicrhau na fydd y newidiadau'n mynd yn ormodol, byddem yn bwriadu adrodd ar y niferoedd a bennir ac unrhyw newidiadau i'r Comisiwn ym mhob cyfarfod.

Rydym wedi ystyried yn ofalus a fyddai penodiadau cyfnod penodol neu dros dro yn gweithio. Fodd bynnag, ni allwn osod graddfeydd amser diffiniedig yn rhwydd ar gyfer y swyddi y mae angen i ni eu llenwi; mae angen i ni fod yn gystadleuol yn y farchnad yn erbyn cyflogwyr eraill sy'n cynnig contractau parhaol ac yn olaf, o ystyried lefelau trosiant y sefydliad, credwn y gallwn leihau effaith gyffredinol y cyfyngiad a bennir. Felly, bydd angen penodiadau parhaol.

Mae angen inni lenwi 6 swydd ychwanegol cyn gynted ag y bo modd, sef y rhai a ganlyn:

- 2 Swyddog Materion Ewropeaidd/Rhyngwladol, wedi'u lleoli yn y Gwasanaeth Ymchwil, ond byddant yn cefnogi gweithgareddau ar draws Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad. Yn y tymor byr a chanolig, bydd y swyddogion hyn yn cefnogi gwaith

Brexit. Yn y tymor hwy, mae'r swyddi hyn yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth i ddatblygu arbenigedd ar draws ystod o feysydd polisi, a fydd yn galluogi gwaith monitro effeithiol ar drefniadau yn dilyn Brexit, megis fframweithiau cyffredin, cytundebau masnach, a chytundebau rhynglywodraethol.

- 1 Dirprwy Glerc ar gyfer y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, i gefnogi'r cynnydd yn y ddeddfwriaeth oherwydd Brexit, yn ogystal â darparu gwydnwch i'r tîm hwn yn y tymor hwy. Byddai hyn yn galluogi gwaith cynllunio olyniaeth; mae gennym Glerc profiadol ac Ail Glerc y mae staff yn dibynnu arnynt i gael cyngor ac arweiniad ar graffu deddfwriaethol.

- 1 Clerc/Arweinydd Tîm ar gyfer Deddfwriaeth, wedi'i leoli yng Ngwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau, ond bydd yn gweithio ar draws y Gyfarwyddiaeth. Mae llawer o brosiectau sydd angen adnoddau pwrpasol ar lefel uwch. Bydd hyn yn rhoi hwb pellach i'n capasiti a'n gallu trwy feddu ar arbenigedd a dyfnder gwybodaeth ar draws y broses ddeddfwriaethol gyfan. Byddem yn cylchdroi clercod drwy'r rôl hon, gan gynyddu sgiliau a gwydnwch ar draws y Gyfarwyddiaeth. Dyma fersiwn wedi'i hail-lunio o swydd sefydledig sydd wedi bod yn wag ers i ddeiliad y swydd symud i rôl dros dro. Bydd llenwi'r swydd wag hon yn barhaol yn cynyddu ein cyfrif pennau.

- 1 Cyfieithydd Cyfreithiol arbenigol ac 1 Cyfieithydd/Golygydd aml-sgil. Wrth i'r maint o waith a wneir gan y Cynulliad gynyddu, felly hefyd y mae'r galw ar y gwasanaeth cyfieithu a chofnodi. Mae hyn yn cynnwys cyfieithu testun, cofnodi, a chyfieithu ar y pryd. Gellir cyflawni rhywfaint o'r galw drwy gontractau allanol, ond mae angen adnoddau arbenigol arnom yn fewnol, yn enwedig ar gyfer deddfwriaeth.

PUBLIC ACCOUNTS COMMITTEE: SCRUTINY OF ACCOUNTS 2017-18

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales response to recommendations

Rec. No.	Recommendation Narrative	Response	Report page no.
34	The Committee recommends that the Museum complies with best practice in reporting its performance against aims and objectives, using infographics to improve communication and understandability	***The Museum reports quarterly to the Board of Trustees and the Welsh Government against its annual operational plan which includes the organisation's aims and objectives. Separately, an infographic of key results was published for the year 2017-18 (attached).*** ***Additionally, for the year 2018-19 and ongoing an annual review of key achievements will be published and shared widely both in hard copy and via our social media accounts.***	72
35	The Committee recommends that the Museum continues to monitor carefully its staff absence rate, analysing staff absence levels to identify the causes of sickness absence. To enable wider comparison, the Museum should ensure that it calculates and reports its sickness absence rate in line with the wider public sector, disclosing the rate in days as well as percentage terms.	***Staff absence, including reasons for absence, is monitored by the Senior Leadership Team, Departmental Managers and quarterly by a Committee of the Board of Trustees. The Museum will calculate absence, disclosing rate in days as well as percentage. We have also ran training for line managers in terms of their role in monitoring sickness absences and supporting staff to reduce sickness absences.***	76

Rec. No.	Recommendation Narrative	Response	Report page no.
36	The Committee recommends that the Museum complies, at the earliest opportunity, with its statutory requirement to produce an annual strategic equalities report.	***A strategic equalities report has been produced and will be published annually.***	76
37	The Committee recommends that, to promote transparency, the Museum provides to the Committee an update in respect of its progress in implementing its commercial strategy and its performance against it in the 2018-19 accounts.	***An update will be provided to the Public Accounts Committee on commercial performance following publication of 2018-19 accounts.***	77
38	The Committee recommends that the Museum keeps its current environmental measures under review, and seeks to explore other ways to improve its sustainability whilst maximising value for money.	***The Museum is currently (May 2019) investing over £0.5m with help of a Salix loan, to replace aged Chillers and Condensers at National Museum Cardiff, which will help to improve sustainability.*** ***The Museum will keep under review its current environmental measures.***	78
39	The Committee recommends that the Museum provides an update in respect of its current backlog maintenance plan , in particular in addressing any issues identified as high/significant risk.	***The Museum will update its backlog/ preventative maintenance plan and provide an update to the committee, identifying high/ significant risks.***	79
40	The Committee recommends that the Museum includes sufficient information in its accounts to improve understanding and facilitate scrutiny, particularly in respect of its potential future liabilities	***The Museum will in future include sufficient information to help understanding and scrutiny and potential future liabilities, as agreed with Wales Audit Office.***	79

Tudalen y pecyn 34

Making a Difference to Wales and the World

We welcome
1,700,000
visitors a year to our 7 museums
with
42% (720,000)
coming from outside Wales

We work in partnership with over
120
charities
and
community organizations

We reach
2.1 million
people a week
through social platforms

£61m
The Museum's **annual contribution to the Welsh economy** is **£61m** of gross value added



97% of visitors **would recommend** our Museums to others

Published January 2017

www.museum.wales @AmgueddfaCymru

national museum wales
amgueddfa cymru
ysbrydoli pobl newid bywydau
inspiring people changing lives

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

806 volunteers contributed over **24,000 hours** last year

We are the largest provider of learning outside the classroom in Wales, reaching over
200,000
school children and students
each year

Our collections of
5 million
objects & intangible heritage
include some of the finest masterpieces of Impressionist art to be found outside Paris

We currently have
pioneering research projects
ranging from natural sciences and art to history and social sciences



33 Youth Forum members contributed **519 hours** last year

Since 2008, our scientists have discovered over
200
new species of animals, plants and other organisms from **over 40 countries**

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ein cyf:	NB/mm	Gofynnwch am:	Nick Bennett
Eich cyf:		☎	01656 641152
Dyddiad:	10 Ebrill 2019	✉	Marilyn.morgan@ombudsman-wales.org.uk

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Trwy Ebost yn unig:
SeneddPAC@assembly.wales

Annwyl Nick

Craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon 2017/18

Diolch i chi am eich adroddiad diweddar ar Graffu eich Pwyllgor o Gyfrifon 2017/18, a gyhoeddwyd ar 19 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad yn gwneud sawl argymhelliad mewn perthynas â'r Ombwdsmon a byddaf yn ymateb iddynt mewn trefn ddilyniannol.

Argymhelliad 29. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfrifon yr Ombwdsmon yn adrodd ar ei berfformiad yn gliriach ac yn fwy effeithiol. Dylai hyn gydymffurfio â'r arfer gorau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol, gan nodi perfformiad yr Ombwdsmon o gymharu â'i amcanion, gan gynnwys y rhai yn ei Gynlluniau Gweithredol a Strategol tair blynedd, yn ogystal â nodi ei gynlluniau a'i dargedau ar gyfer y dyfodol

Ymateb: Rwy'n falch o gyhoeddi, yn fy Mhwyllgor Archwilio a Risg diweddaraf, cadarnhaodd yr archwilwyr bod ein cyfrifon yn adlewyrchu arfer gorau.

Mae ardystiad yr Archwilydd Cyffredinol yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017/18 yn datgan:

"Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru…' a
- Wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Thrysorlys ei Mawrhydi a gyhoeddwyd o dan Ddeddf (2005) Ombwdsmon Gwasanaethau cyhoeddus (Cymru)."

Mae'n bosibl na fydd aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymwybodol bod fy adroddiad a chyfrifon blynyddol wedi cael eu cyhoeddi ar y cyd dros y ddwy flynedd diwethaf er mwyn sicrhau mwy o symbiosis rhwng gwybodaeth ariannol, gwybodaeth am berfformiad, cynlluniau a thargedau ar gyfer y dyfodol. Adroddir ar wariant ar bob un

Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 | 01656 641199 | post@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

o'm hamcanion yn unol ag arfer da. Mae fy Nghynllun Corfforaethol tair blynedd newydd, sy'n cychwyn yn 2019/20, yn cysylltu dangosyddion perfformiad allweddol yn fwy uniongyrchol â'r amcanion. Croesawir awgrymiadau am fwy o eglurder ac effeithiolrwydd yn yr ysbryd o welliant parhaus.

Argymhelliad 30. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn gosod targedau ar gyfer arbedion cost i adlewyrchu'r ystod lawn o'i weithgareddau. Dylid adrodd ar berfformiad ar sail y targedau hyn bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ymateb: O ystyried y nifer cynyddol o gwynion sy'n dod i'm swyddfa, rydym bob amser wedi ceisio gwneud arbedion cost y gellir eu hail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen i ddinasyddion. Caiff cyllidebau eu hadolygu'n flynyddol, cyn y gwneir dyraniadau i bennau gyllideb. Mae'r dyraniadau hyn yn adlewyrchu arbedion targed. Yn ychwanegol, cyfrifir costau uned yn flynyddol - mae'r gost fesul ymholiad/cwyn wedi'i leihau o fwy na 40% dros saith mlynedd. Byddaf yn rhoi ystyriaeth lawn i'r argymhelliad hwn fel y gellir cyfleu hyn yn fwy effeithiol mewn Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol yn y dyfodol.

Argymhelliad 31. Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn hyrwyddo annibyniaeth, fod yr Ombwdsmon yn penodi aelod annibynnol i'w Banel Cynghori nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Ymateb: Credaf fod yr argymhelliad hwn yn camddeall y berthynas rhwng fy Mhanel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC). Fel corfforaeth unigol, rwy'n sicrhau bod y ddau bwyllgor yn annibynnol, gyda chylch gorchwyl sydd wedi'i diffinio'n glir. Gan nad wyf i nag unrhyw un o'm staff yn aelodau o'r ARAC, mae'n gwbl annibynnol ac felly ni ddylid ei gyfuno â strwythur traddodiadol prif fwrdd/pwyllgor archwilio. Mae'r Panel Cynghori yn darparu canllawiau a chyngor strategol ond nid yw'n gyfrifol am faterion llywodraethu. Y Pwyllgor Archwilio & Sicrhau Risg sy'n goruchwylio materion llywodraethu, gyda chymorth archwilwyr mewnol ac allanol.

Yn y cyd-destun hwn, rwyf hefyd yn ymwybodol y trafodwyd fy atebolrwydd yn ystod y broses o basio'r ddeddfwriaeth OGCC newydd, a'ch bod wedi cwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i drafod sut gellir gwella fy atebolrwydd. Gyda hyn mewn golwg, hoffwn eich gwahodd a chadeiryddion y Pwyllgorau eraill i OGCC ym Mhencoed i gwrdd â staff a thrafod y mater penodol hwn gyda Jonathan Morgan, cadeirydd annibynnol y Panel Cynghori a'r ARAC, a minnau.

Argymhelliad 32. Mae'r Pwyllgor yn argymell, er budd tryloywder, fod yr Ombwdsmon yn ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y cyfrifon mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau yn y dyfodol am ei rwymedigaethau posibl ac agweddau eraill ar ei ddatganiadau ariannol.

Ymateb: Rydym yn adrodd yn lawn ar ein darpariaethau a rhwymedigaethau yn ein cyfrifon blynyddol yn unol â gofynion adrodd ariannol statudol a chaiff y rhain eu hadolygu a'u cymeradwyo gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'u harchwiliad blynyddol o'r cyfrifon blynyddol. Fodd bynnag, yn yr ysbryd o welliant parhaus, rwy'n hapus iawn i roi ystyriaeth lawn i'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 33: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsman yn esbonio i'r Pwyllgor ei resymau dros wneud taliadau arbennig yn 2017-18 i gyn-aelodau o staff. Dylai hyn nodi pam yr oedd taliadau o'r fath yn ddarostyngedig i gymal cyfrinachedd.

Ymateb: Rwy'n bryderus bod diffyg dealltwriaeth ynghylch y mater hwn. Yn gyffredinol, caiff cytundebau setlo eu cydnabod a'u derbyn fel ffordd o ffurfioli cytundebau gwirfoddol rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr. Cafodd y cytundebau eu gwneud yn unol â Chod Ymarfer ACAS ar gyfer Cytundebau Setlo. Yn gyffredinol, mae cytundebau setlo cyflogaeth yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cyfrinachedd ynghylch materion sensitif mewn perthynas â staff, ar gyfer y gweithiwr a'r cyflogwr.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymestyn i chwythu'r chwiban - nid yw cytundebau cyfrinachedd yr un fath â chytundebau peidio â datguddio, sydd wedi cael rhywfaint o amlygrwydd yn y cyfryngau yn ddiweddar. Roedd y cytundebau setlo y cyfeiriwyd atynt yn y cyfrifon yn ymwneud â thri aelod unigol o staff ac roedd pob un o'r cytundebau yn cynnwys darpariaeth bendant yn amlygu nad oedd dim yn y cytundeb yn atal yr unigolyn rhag gwneud datgeliad chwythu'r chwiban gwarchodedig. Cytunwyd ar y manylion a gynhwysir yn yr adroddiad a chyfrifon blynyddol gan yr archwilwyr allanol ac maent yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn ei adroddiad, dywedodd y Pwyllgor: "*Ni ddylid eu defnyddio fel mater o drefn er mwyn atal cyn-weithwyr rhag datgelu'r ffeithiau sy'n ymwneud â therfynu eu cyflogaeth na'u hatal rhag codi materion am y gwasanaethau a ddarperir gan eu cyn-gyflogwr (neu gau eu cegau).* Gall yr ymadrodd hwn fod yn emosiynol lwythog a chamarweiniol ac rwy'n hapus i gywiro'r gwall. Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd, mae 23 aelod o staff wedi gadael eu cyflogaeth yn OGCC. Dim ond mewn tair achos y defnyddiwyd cytundebau setlo, felly yn sicr, nid ydynt yn creu unrhyw fath o safle ragosodedig. Oherwydd rhesymau cytundebol, ni allaf ddarparu manylion yr achosion unigol penodol.

Yn gywir

Nick Bennett
Omwbdsmon

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr N Ramsay
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Ebrill 2019

Annwyl Mr Ramsay,

CRAFFU AR GYFRIFON 2017-18 GAN Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS

Diolch i chi am yr adroddiad yn dilyn proses graffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon Blynyddol 2017-18 Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Amgueddfa Genedlaethol. Rwyf wedi ystyried pob un o'r argymhellion a gafwyd ynghylch paratoi a chyflwyno cyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru ac mae'r ymatebion i'w gweld yn atodiadau A i C. Mae pob un o'r argymhellion wedi'u derbyn ac mae fy swyddogion yn cymryd y camau angenrheidiol i weithredu cynifer o'r argymhellion ag sy'n ymarferol cyn i gyfrifon 2018-19 gael eu cyhoeddi.

Yn gywir,

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Atodiad A

Ymateb i Argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mesurau angenrheidiol i atal swyddogion rhag gwrthod rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eto (yn gyfrinachol os oes angen) ar y sail na chânt wneud hynny yn ôl y gyfraith (ac yn amlwg yn groes i A4.12.11 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Derbyn yr argymhelliad. Rwy'n rhannu pryder y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich fod mor agored a thryloyw â phosibl yn eu cyfrifon a chyda'r Pwyllgor ei hun, mewn perthynas â thaliadau diswyddo yn yr un modd â phopeth arall. Nid yw bob amser yn bosibl bod yn hollol dryloyw – fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, weithiau bydd angen ystyried materion yn ymwneud â diogelu data neu rwymedigaethau cyfreithiol. Ond rwy'n credu y gallwn wneud mwy i leddfu pryderon y Pwyllgor ac rwy'n ystyried sut y gallwn gyflawni hyn. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor i'w ddiweddaru o fewn dau fis.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer cyhoeddi ei chyfrifon a'i hadroddiadau blynyddol yn flynyddol i helpu o ran tryloywder a dealltwriaeth o'r broses.

Derbyn yr argymhelliad. Mae manylion yr amserlen ar gyfer paratoi'r cyfrifon blynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor mewn perthynas â'i thrafodaethau â Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth lunio ac archwilio cyfrifon 2017-18.

Derbyn yr argymhelliad. Mae copi o'r wybodaeth a rennais ag Archwilydd Cenedlaethol Cymru ynglŷn â'r camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth baratoi cyfrifon 2017-18 wedi'i amgáu yn atodiad B.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, i'r Pwyllgor, yr adnoddau sydd ganddi ar gyfer y broses, yn ogystal ag

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

esbonio sut y mae'n sicrhau bod ganddi ddigon o sgiliau a galluoedd i ddarparu ei chyfrifon blynyddol.

Derbyn yr argymhelliad. Mae'r wybodaeth yn atodiad B yn cynnwys manylion pellach am yr adnoddau ychwanegol sydd ar gael bellach o fewn y tîm sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon craidd a chyfunol, ac felly'r hyn a gyflwynir i Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Mae'r holl staff yn dal y cymwysterau priodol: mae gan y staff SEO, Gradd 7 a'r uwch weision sifil gymhwyster proffesiynol perthnasol mewn cyfrifeg ac mae nifer o'r staff wedi bod yn gweithio o'r blaen mewn tîm cyfrifon canolog. Rwyf wedi dyblu nifer y staff cymwysedig/rhannol-gymwysedig sy'n paratoi cyfrifon 2018-19, o gymharu'r sefyllfa ag un y llynedd.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth ariannol fanylach a gwybodaeth am berfformiad megis dadansoddiadau o wariant blynyddol ym mhob Prif Grŵp Gwariant a sut y mae'r rhaglenni hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hefyd adroddiadau am ei pherfformiad yn ystod y flwyddyn i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd.

Derbyn yr argymhelliad. Mae'r adroddiad alldro blynyddol a gyhoeddir i'r Pwyllgor Cyllid ar ôl y cyfrifon blynyddol yn rhoi manylion cynhwysfawr ynghylch sut mae alldro Llywodraeth Cymru yn cymharu â'r gyllideb. Mae'r datganiad o alldro adnoddau, sy'n ofyniad gorfodol ar gyfer yr holl gyfrifon blynyddol, yn rhoi manylion y gwariant yn erbyn pob un o'r prif grwpiau gwariant, ac yn 2018-19 bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno tabl pellach sy'n cynnwys y 30 maes gwariant mwyaf. Rhoddir sylw i'r mater o adrodd ar berfformiad o dan argymhelliad 17.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i gyhoeddi ei chyfrifon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

Derbyn yr argymhelliad. Caiff y fersiynau Cymraeg a Saesneg o gyfrifon 2018-19 eu cyhoeddi yr un pryd. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn pennu bod rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru osod y cyfrifon yn y Cynulliad. Yn y gorffennol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gosod y fersiwn Saesneg yn unig gan nad yw'r fersiwn Gymraeg yn destun archwiliad. Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch posibl

ynglŷn â'r dyddiadau cyhoeddi, byddaf yn awgrymu wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ein bod yn anfon copïau o'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r cyfrifon at ei swyddogion a'u bod hwythau wedyn yn cyflwyno'r ddwy fersiwn i'r Cynulliad.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer mynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol i'r Bwrdd ac yn rhannu'r canlyniad, yn ogystal â phapurau a drafodir gan y Bwrdd.

Derbyn yr argymhelliad. Rwyf wedi comisiynu papur i'w gyflwyno i Fwrdd Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ym mis Mai er mwyn cynnal trafodaeth yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Rwyf wedi gofyn am i'r papur ystyried y datblygiadau ers i'r papur gwreiddiol, y dyfynnir ohono yn adroddiad y Pwyllgor, gael ei lunio yn 2017. Bydd y papur hefyd yn ystyried y cydbwysedd rhwng polisi uchelgeisiol yn seiliedig ar darged Strategaeth y Gymraeg ar un llaw, a materion ymarferol ar y llall. Yn amlwg mae hwn yn fater sensitif i'r staff, a rhaid inni ystyried yn ofalus sut y gallai unrhyw newidiadau effeithio ar y gweithlu. Wrth baratoi'r papur rydym hefyd wedi bod yn ystyried yr arferion gorau mewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae fy swyddogion wedi cyfarfod gyda Phrif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru, Jeremy Vaughan, a hefyd Gomisiwn y Cynulliad, Cyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Ynys Môn, i drafod sut maent yn mynd ati i sicrhau capasiti o ran sgiliau Cymraeg yn y gweithlu ac i hwyluso a hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn eu sefydliadau. Nid yw papurau polisi'r Bwrdd o'r natur hwn yn cael eu cyhoeddi gan amlaf, ond yn dilyn trafodaeth ar y materion hyn gan y Bwrdd, bydd y papur, a fydd yn cynnwys barn y Bwrdd, yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Materion Rhyngwladol. Byddaf yn rhannu canlyniad y broses ystyried hon gyda'r Pwyllgor, ynghyd ag unrhyw bapurau perthnasol. Gobeithiaf allu gwneud hyn erbyn mis Medi.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gydymffurfio â'r arfer gorau ym maes cyflwyno adroddiadau ariannol drwy gynnwys gwybodaeth am ei pherfformiad a mabwysiadu'r arfer hwn wrth lunio adroddiadau blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf, cyn cyhoeddi rhagor o ganllawiau i gyrff a noddir ganddi. Dylai'r adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon, o leiaf, nodi sut y mae'r arian wedi'i wario a'r hyn y mae wedi'i gyflawni, gan gyfeirio at y targedau a bennwyd gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth

Cymru, yn ogystal â'r perfformiad yn eu herbyn. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o wariant yn erbyn nodau "Ffyniant i Bawb" (a'r rhaglenni dilynol) a thargedau sefydliadol eraill yn y cyfrifon, yn gyson â'r gwariant yr adroddir arno yn y datganiadau ariannol.

Derbyn yr argymhelliad. Rwyf wedi gofyn i Jeff Farrar yn ei swyddogaeth fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru i arwain grŵp gorchwyl a gorffen i gynghori ar ddull addas o baratoi cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol gwell a systematig ar gyfer Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd iddo edrych ar y deunydd presennol ac ystyried pa fesurau ychwanegol y byddai'n ddefnyddiol inni eu mabwysiadu i'n galluogi i fonitro cynnydd a chyflawniad yn fwy effeithiol. Y cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp yw i ystyried a gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Parhaol ar gyfres newydd o wybodaeth rheoli perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â'i chyfrifoldebau o ran sut y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg.

Mae Mr Farrar wedi dechrau ar ei waith, ac rwyf wedi gofyn am adroddiad erbyn diwedd mis Mehefin. Credaf ei bod yn anhebygol y bydd llawer o'r gwaith hwn yn barod mewn pryd i gael ei gynnwys yn ein cyfrifon nesaf, ond byddaf yn gallu diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a wneir yn yr hydref. Mae'r gwaith yn ymwneud â pherfformiad gweithredol Llywodraeth Cymru, a'r meysydd y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol amdanynt, nid y rhai sy'n gyfrifoldeb i Weinidogion. Fodd bynnag, byddaf yn trafod y goblygiadau ehangach posibl sydd i'r argymhelliad penodol hwn gyda'r Prif Weinidog a byddaf yn sicr yn tynnu ei sylw at y pryderon sydd wedi'u mynegi gan y Pwyllgor.

2.34 Roedd swm y lludw gwaelodol o losgyddion a anfonwyd i'w ailgylchu wedi bod yn cynyddu wrth i gynghorau gynyddu'r defnydd o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni. Gellir ailgylchu'r lludw gwaelodol i gynhyrchu deunyddiau adeiladu, a bydd metel hefyd yn cael ei adfer. Yn wahanol i Loegr, mae Llywodraeth Cymru yn caniatáu cynnwys lludw gwaelodol o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni yn ei tharged ailgylchu, er na ellir cynnwys hynny yn y ffigurau a ddychwelir i'r Undeb Ewropeaidd, nac wrth gyfrifo cyfradd ailgylchu'r DU. Mae Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau yn rhagweld y gallai lludw gwaelodol greu cynnydd o saith neu wyth pwynt canran mewn cyfraddau ailgylchu yn y pen draw. Fodd bynnag, yn ôl Llywodraeth Cymru mae gostyngiad yn y lludw gwaelodol o losgyddion yr adroddwyd ei fod wedi'i ailgylchu, ymhlith y ffactorau a gyfrannodd at ostyngiad yng nghyfradd ailgylchu gyffredinol Cymru yn 2017-18, yn y tymor byr o leiaf.

2.35 Mae hi bellach yn arferol i holl gynghorau Cymru gasglu gwastraff gardd ar wahân i'w rhawdiau casglu gwastraff domestig o garreg y drws, ac eithrio Cyngor Sir Powys a'r cynghorau sydd yn dal i gasglu gwastraff gardd a gwastraff bwyd cymysg. Ar yr un pryd, mae tua 25% o wastraff gardd yn cael ei gludo gan breswylwyr i ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, ac nid oes rhaid i gynghorau dalu i gasglu'r gwastraff hwnnw.

2.36 Awgrymir codi tâl am gasglu gwastraff gardd o garreg y drws yng Nglasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru, ac mae hynny'n dechrau digwydd ledled Cymru. Am y rhesymau hynny, mae casglu gwastraff gardd ar wahân a'i gompostio'n ganolog yn cynnig ffordd gymharol rwydd i gynghorau wella eu perfformiad ailgylchu, gyda gwastraff sydd yn ddwys ac sydd yn rhatach i'w gasglu a'i drin. O'n profiad ers 2012, gwelwyd bod cynghorau bellach yn rhoi llai o sylw i gompostio gartref. Mae hynny yn sgil ymgyrchoedd cryf i hyrwyddo casgliadau gwastraff gardd o garreg y drws mewn ymateb i'r angen i wella perfformiad ailgylchu.

Tudalen y pecyn 229

2.37 Yn achos gwydr, gallai gallu cyngor i ennill deunydd ailgylchadwy i gyfrannu at y gyfradd ailgylchu trefol gyffredinol ddibynnu ar gystadleuaeth o'r sector preifat wrth gasglu o ffynonellau ar wahân i aelwydydd. Gallai hefyd ddibynnu ar argaeledd banciau cyflwyno a'r graddau y caiff y banciau hynny eu defnyddio gan fasnachwyr. Fodd bynnag, dengys amcangyfrifon o gyfanswm y gwydr yn y ffrwd gwastraff trefol ledled Cymru y gallai rhai cynghorau fod yn casglu ac yn ailgylchu cyfran uchel o'r gwydr sydd ar gael.

Mae adolygu Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn gyfle i Lywodraeth Cymru ailystyried y dull o fesur perfformiad ailgylchu ac ystyried y gwerth am arian y mae'n ei sicrhau'n gyffredinol wrth gefnogi ailgylchu

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfyngiadau'n gysylltiedig â thargedau sy'n seiliedig ar bwysau, ac wedi ymroi i adolygu ei hymagwedd

2.38 Er ei bod yn cydnabod y cyfyngiadau'n gysylltiedig â tharged sy'n seiliedig ar bwysau, mae Llywodraeth Cymru hyd yma o'r farn nad oes dewis gwell yn lle'r ymagwedd gyfredol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn pryderu y gallai symud tag at darged ailgylchu carbon achosi canlyniadau anfwriadol, lle bo cynghorau'n 'hela' gwastraff sydd yn ymgorffori llawer o garbon i'w ailgylchu yn hytrach na rhoi'r flaenoriaeth i atal y gwastraff hwnnw.

2.39 Yn ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ailgylchu yn 2014, nodwyd y gallai ymagwedd sy'n seiliedig ar bwysau greu effeithiau anfwriadol, gan annog cynnydd mewn gwastraff. Nododd y Pwyllgor, er enghraifft, pe bai mesurau atal gwastraff yn datblygu'n fwy llwyddiannus, yn unol â'r strategaeth genedlaethol, byddai llai o wastraff yn cael ei gyflwyno i'w gasglu gan gynghorau. Gallai cyfraddau ailgylchu ostwng pe bai mesurau atal gwastraff yn canolbwyntio gormod ar ddeunyddiau a fyddai fel arall wedi bod yn wastraff a fyddai wedi cael ei ailgylchu, yn hytrach na gostwng pob math o wastraff i'r un graddau. Gallai gostyngiad yn swm y gwastraff sydd ar gael i'w ailgylchu hefyd gael effaith negyddol ar yr incwm y bydd cynghorau'n ei ennill o'i werthu. Gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad o'r berthynas rhwng ailgylchu ac atal gwastraff, ac effeithiau posibl hynny ar berfformiad ailgylchu'r cyngor. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn eto, gan ddisgwyl ailwampio **Tuag at Ddyfodol Diwastraff** yn 2018.

2.40 Wrth adolygu **Tuag at Ddyfodol Diwastraff**, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu amcan iddi ei hun i archwilio o'r newydd a oes unrhyw ddewisiadau realistig yn lle targedau sy'n seiliedig ar bwysau, a all ddangos yn well a yw'n cyrraedd ei nodau o ran ei hôl-troed ecolegol a lleihau carbon[39].

2.41 Gallai fod yn ymarferol, er enghraifft, creu targed carbon ar gyfer ailgylchu o gymharu â chyfanswm y gwastraff a gynhyrchir, neu dargedau carbon ar gyfer deunyddiau penodol. Mae'n debygol y bydd angen dealltwriaeth barhaus well o gyfansoddiad gwastraff gweddilliol er mwyn mesur carbon, a byddai hynny'n costio mwy, er y dylai dadansoddiad o'r fath hefyd fod o gymorth i oleuo ymdrechion i wella prosesau dal gwastraff. Drwy fabwysiadu ymagwedd wahanol i dargedau ailgylchu, gellid cael dealltwriaeth gliriach o werth deunyddiau y cyfyngir ar y cyflenwad ohonynt, fel copr, neu ddeunyddiau sy'n ddibynnol ar echdynnu olew, fel plastigau. Fel y nodwyd ym mharagraff 1.28, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ganolbwyntio mwy ar ddeunyddiau felly mewn gwaith ailgylchu.

2.42 Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar godi'r targed ailgylchu gwastraff trefol i 80% yn 2034-35, a datganodd Gweinidogion hefyd y bwriad mai Cymru fyddai'r genedl ailgylchu orau yn y byd. Gallai Llywodraeth Cymru barhau'n syml i weithredu targedau uwch tebyg, ac mae **Tuag at Ddyfodol Diwastraff** eisoes yn pennu targed ailgylchu 'uchelgeisiol' seiliedig ar bwysau o 100% erbyn 2050. Mae'n ddealladwy bod Llywodraeth Cymru am gadw dangosydd ailgylchu y gall cynghorau a'r cyhoedd ei ddeall yn rhwydd ac, yn y tymor byr o leiaf, bydd angen iddi barhau i adrodd yn erbyn targedau a ddiffiniwyd gan yr UE. Ond yn hytrach na mesur yr hyn sydd yn hawdd i'w fesur, gallai canolbwyntio ar ansawdd wrth fesur perfformiad, bod hynny'n ychwanegol at faint, neu yn lle hynny, greu mwy o ymwybyddiaeth a chefnogaeth o du'r cyhoedd. Byddai hefyd yn fwy cyson ag amcanion datblygu cynaliadwy ehangach.

39 Fel yr adlewyrchir hefyd, er enghraifft, yng ngofynion **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**, a'r dangosyddion a sefydlwyd o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

2.43 Ar gyfer llawer o adnoddau ailgylchadwy, nid yw'r swyddi gwyrdd, y gweithgarwch economaidd nac unrhyw fanteision eraill o ran cynaliadwyedd sydd yn gysylltiedig â'u rheoli o reidrwydd yn ddibynnol ar gynnwys yr adnoddau hynny mewn targed ailgylchu. Ceir manteision ehangach a rhesymau eraill a allai achosi i gynghorau barhau i gasglu ac anfon llawer o adnoddau gwastraff ailgylchadwy i gael eu trin. Gan hynny, efallai mai ychydig o newid y byddai preswylwyr yn ei weld i'w gwasanaethau casglu gwastraff gweladwy. Y tu allan i darged ailgylchu, gallai cynghorau gasglu a throsglwyddo rhai mathau o wastraff i ailbroseswyr masnachol, nid am eu bod yn ffordd rwydd o sicrhau perfformiad gwell wrth ailgylchu, ond gan fod angen rheoli'r mathau hyn o wastraff am resymau eraill, ee, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth i osgoi gwaredu mewn safleoedd tirlenwi, i leihau halogiad ffrydiau gwastraff ailgylchadwy, neu oherwydd ystyriaethau'n gysylltiedig ag amwynder, fel tipio anghyfreithlon. Fel hyn, gallai cynghorau ganolbwyntio mwy ar y deunydd sydd yn cyflawni nodau'r strategaeth gwastraff genedlaethol orau wrth ailgylchu.

2.44 Er enghraifft, ac eithrio mewn cyfnodau o ddirwasgiad, ceir marchnad glir i ailddefnyddio ac ailgylchu rwbel fel agreg eilaidd, a phob blwyddyn mae'r sector masnachol yn llwyddo i reoli rhai miliynau o dunelli o wastraff dymchwel heb fod angen targed statudol ar gyfer hynny. Caiff adnoddau gwastraff prin uchel eu gwerth fel metelau hefyd eu hailgylchu'n rhwydd yn y sector preifat heb dargedau statudol, ac mae'r diwydiant sgrap yn creu swyddi a gweithgarwch economaidd yn sgil hyfywedd masnachol y galw yn y farchnad am yr adnoddau hyn.

2.45 Yn debyg i'r gwastraff bwyd a gesglir gan gynghorau, gellir trin gwastraff gardd hefyd i greu cynnyrch compost y ceir galw mawr a pharod amdanynt. Mae Bocs 6 yn dangos bod trin gwastraff gardd a gwastraff bwyd eisoes yn hyfyw yn fasnachol, o gadw'r gefnogaeth ariannol ar gyfer casgliadau cyngor a ffioedd clwyd. Yn ogystal â hynny, mae amcangyfrifon o werth atal allyriadau nwyon tŷ gwydr yn amlygu'r budd ariannol ehangach posibl yn sgil treuliad anaerobig gwastraff bwyd yn unig.

Bocs 6 – hyfywedd masnachol trin gwastraff bwyd a gwastraff gardd

Gellir ailgylchu gwastraff bwyd drwy dreuliad anaerobig a bydd hyn yn creu cynnyrch gwerthfawr fel gwrtaith naturiol. Caiff nwy sy'n seiliedig ar fethan hefyd ei gynhyrchu a'i gipio, a defnyddir hwnnw fel tanwydd adnewyddadwy, ac i gynhyrchu trydan. Yn ôl Llywodraeth Cymru bydd treulio gwastraff bwyd yn anaerobig yn atal 660,000 o dunelli o allyriadau carbon deuocsid sy'n niweidiol i'r hinsawdd erbyn 2020.

Caiff gwastraff bwyd ei gompostio'n fasnachol i gynhyrchu compost a chyflyrwyr pridd. Os cânt eu cynhyrchu hyd at y safon briodol, caiff yr allbynnau hyn eu galw'n gynnyrch yn hytrach na gwastraff, a gellir eu defnyddio heb gyfyngiadau ar y farchnad agored.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, 'ceir marchnadoedd helaeth ar gyfer y deunydd hwn, gyda galw posibl wedi'i nodi am fwy na dau filiwn o dunelli....Yn ôl yr arwyddion presennol bydd y galw posibl yn llawer uwch na'r cyflenwad'.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd**, Gorffennaf 2012.

Mae adolygu Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn gyfle i fyfyrio'n fwy cyffredinol ar rôl y sector preifat, ac ar y gwerth am arian a gynigir yn sgil buddsoddiad cyhoeddus i gefnogi ailgylchu

2.46 Yn ein hadroddiad yn 2012, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru a'r cynghorau weithio'n agosach â'r sector preifat i gael dealltwriaeth lawnach o'r modd y mae grymoedd y farchnad a datblygiadau technegol yn newid y diwydiant ailgylchu. Argymhellwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio'n agosach â chynghorau i ystyried targedau, cymhellion a deddfwriaeth i lywio'r sector preifat at y deilliannau gorau o ran cynaliadwyedd, gwerth am arian a pharodrwydd y cyhoedd i dderbyn trefniadau ailgylchu trefol.

2.47 Roedd yr argymhellion hyn yn cydnabod bod cyfle i roi mwy o reolaeth i ddiwydiant ailgylchu'r sector preifat dros sicrhau'r deunyddiau ailgylchadwy o ansawdd uchel sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu prosesau trin, ac i sicrhau'r incwm uchaf wrth ailwerthu adnoddau. Gall pwysau o du'r sector preifat, gan gynnwys pwysau drwy eu contractau â chynghorau, fod o gymorth i wella ansawdd a maint yr adnoddau a ailgylchir, gan wireddu'n llawnach eu potensial am incwm.

2.48 Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio cyflwyno targedau statudol, cymhellion na deddfwriaeth i lywio'r sector preifat tuag at y deilliannau a geisir yn y strategaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i fusnesau sy'n cyflwyno deunydd pecynnu i'r farchnad fodloni targedau ailgylchu deunydd pecynnu o dan ddeddfwriaeth yr UE a'r DU[40]. Hyd yma, llwyddwyd i ddibynnu ar ymrwymiadau gwirfoddol o du'r diwydiant a'r pwysau o ran y galw am ddeunyddiau a gaiff ei greu mewn marchnadoedd adnoddau, mewn datblygiadau i gynyddu a gwella ansawdd ailgylchu ar draws y sector preifat. Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru)** bellach yn cynnwys pwerau newydd i Lywodraeth Cymru reoleiddio agweddau ar ailgylchu yn y sector preifat. Mae'r pwerau newydd hyn yn rhoi cyfle i alinio trefniadau rheoleiddio'r cynghorau â rheoleiddio'r sector preifat, yn gofyn i fusnesau masnachol wahanu rhai mathau allweddol o wastraff ailgylchadwy, ac i wneud mwy ddefnydd o rymoedd y farchnad hyd yn oed.

2.49 Yn hwyr yn 2017, effeithiwyd ar farchnadoedd gwastraff pan gyhoeddodd gweinyddiaeth Tsieina nad oedd yn mynd i dderbyn deunyddiau ailgylchadwy o ansawdd uchel a oedd yn cael eu mewnforio yn ystod 2018, ac y byddai cyfyngiadau pellach yn dilyn. Nid yw'r effaith ar gynghorau Cymru yn eglur eto, ond gallai fod yn sylweddol gan mai Tsieina yw'r farchnad fwyaf o bellffordd ar gyfer y gwastraff papur a phlastig a gesglir ganddynt. Mewn adroddiad diweddar ar y system rhwymedigaethau ailgylchu, fel y'i nodwyd yn Rheoliadau Cyfrifoldebau Cynhyrchwyr (Gwastraff Pecynnu), nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y gallai'r camau a gymerwyd gan awdurdodau Tsieina achosi gostyngiad neu ddirywiad mewn perfformiad ailgylchu os na cheir hyd i farchnad oedd eraill i dderbyn y capasiti[41].

2.50 Ers 2001-02, ar ddechrau ei rhaglen gynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff, amcangyfrifwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwario cyfanswm o oddeutu £4 biliwn ar wasanaethau gwastraff trefol. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys cyllid grant rheoli gwastraff penodol a chostau a dalwyd drwy'r Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol. Wrth ymateb i faterion a godwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad yn 2012, cydnabu Llywodraeth Cymru fod angen gwneud mwy o waith i weld sut y gellid cyrraedd targedau ailgylchu heb wario cymaint, a thrwy ysgogi mwy o fanteision gwerth am arian ochr yn ochr â deilliannau amgylcheddol gwell.

40 Fel y'u pennwyd o dan Gyfarwyddeb Gwastraff Pecynnu'r UE a rheoliadau cysylltiedig y DU.

41 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **The packaging recycling obligations**, Gorffennaf 2018.

2.51 Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy. Mae'r grant hwn bellach wedi'i ddisodli gan y Grant Refeniw Sengl, a oedd yn cyfuno cyllid grant ar gyfer ystod eang o waith cysylltiedig â'r amgylchedd[42]. Yn 2015-16, cyfrannodd y Grant Refeniw Sengl tua £59 miliwn at wasanaethau gwastraff cynghorau, neu oddeutu 26% o'u gwariant net cyffredinol o £228 miliwn, gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill wedi'i dalu drwy Grant Cynnal Refeniw y cynghorau[43]. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw gasgliadau cyffredinol clir ynghylch gwerth am arian wrth adolygu'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (Bocs 7).

Bocs 7 – gwerth am arian y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

Wrth adolygu'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ceisiwyd archwilio a oedd cynghorau wedi defnyddio'r cyllid yn effeithiol i sicrhau gwerth am arian a chyflawni amcanion polisi ehangach yn gysylltiedig â gwastraff.

Gofynnai'r adolygiad a oedd yr holl gyllid grant wedi'i wario er mwyn cyflawni blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Nodai hefyd fod yr ystod eang o weithgareddau a gefnogir drwy gyllid grant yn ei gwneud hi'n anodd priodoli deilliannau i'r buddsoddiadau. Fodd bynnag, casglai'r adolygiad hefyd nad oedd yr angen parhaus am gyllid ynddo'i hun yn arwydd o werth am arian.

Dangosai'r adolygiad hefyd mai'r gost fesul tunnell o wastraff ailgylchadwy a reolwyd oedd £104.82 yn 2013-14. Am y pegwn arall, dim ond £50.64 oed yr un gost i gynghorau Lloegr. Nid yw'r canfyddiad yn rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch effeithlonrwydd gwariant gan gynghorau Cymru ar wasanaethau ailgylchu.

Roedd yr adolygiad yn cydnabod nad yw arbedion carbon yn cynrychioli'r holl fudd yn gysylltiedig â gwasanaethau ailgylchu yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oedd yn cyfrif y budd ehangach yn sgil defnydd mwy effeithlon o adnoddau prin, mwy o sicrwydd ynghylch adnoddau, creu swyddi a buddion cymdeithasol. Ar gyfer 2013-14, canfu'r adolygiad fod gwerth arbedion carbon yn sgil ailgylchu gyfwerth ag £11.94 fesul aelwyd yng Nghymru. Roedd cyfanswm gwerth yr arbedion hyn gyfwerth ag ond 22.8% o'r cyllid grant blynyddol.

Ffynhonnell: Eunomia, **Adolygiad o'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy**, Medi 2015.

42 O 2018-1919, mae rhan helaeth o elfen gwastraff y Grant Refeniw Sengl wedi cael ei throsglwyddo i setliad y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer cynghorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r gweddill i ailsefydlu Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ar wahân gwerth cyfanswm o £18.2 miliwn.

43 O **Adroddiad Data Cyllid Gwastraff 2015-16** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ionawr 2017. Mae'r gwariant net hefyd yn cynnwys cyllid a godir gan gynghorau'n bennaf drwy'r Dreth Gyngor.

2.52 Ni ellir dadlau ynghylch budd cyffredinol ailgylchu, ac mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, ar raddfa eang, yr hyn a ystyrir ganddi yn fuddion economaidd sylweddol posibl, a buddion eraill yn gysylltiedig â symud tuag at 'economi gylchol' . Fodd bynnag, ceir pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus, ac mae cyllideb gwastraff Llywodraeth Cymru wedi wynebu gostyngiadau mawr ers blynyddoedd. Wrth ailwampio **Tuag at Ddyfodol Diwastraff** a blaenoriaethu gwariant yn y dyfodol, mae angen i Lywodraeth Cymru allu dangos ei bod hi nid yn unig yn bosibl i ailgylchu mwy o wastraff trefol, ond bod yr enillion mesuradwy yn ei gwneud hi'n werth gwneud hynny yn hytrach na defnyddio dulliau eraill o gyflawni ei hamcanion datblygu cynaliadwy.

2.53 Er enghraifft, ceir opsiynau eraill ar gyfer rheoli gwastraff, gan gynnwys atal gwastraff ac, yn gynyddol, defnyddio technolegau trin gwastraff fel cyfleusterau troi gwastraff yn ynni. Mae'r opsiynau hyn yn cynnig datrysiadau rheoli gwastraff a all fod yn llawer rhatach na safleoedd tirlenwi, yn enwedig gan fod hynny'n golygu osgoi trethi tirlenwi. Yn 2016-17, llwyddodd gwasanaethau ailgylchu i atal 287,500 o dunelli o allyriadau carbon[44], ond gellid sicrhau'r un arbedion carbon yn rhatach drwy gymryd camau eraill ar wahân i ailgylchu.

2.54 Er nad yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi cyhoeddi asesiad cyffredinol o'i chynnydd yn erbyn y deilliannau allweddol a geisiai drwy **Tuag at Ddyfodol Diwastraff** (Dangosyn 2 ar dudalen 9), mae tystiolaeth ar gael o fuddion ailgylchu trefol a rheolaeth ehangach ar wastraff. Er enghraifft, ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad[45] a amlygai oddeutu £465 miliwn o allbwn a £104 miliwn o werth gros ychwanegol gan y sector gwastraff trefol yn 2015-16, gyda'r sector yn cefnogi ychydig dros 4,400 o gyfleoedd cyflogaeth. Cyfeiriai'r adroddiad hefyd at y modd y mae allbwn o'r sector yn effeithio ar economi ehangach Cymru.

2.55 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal adolygiad manwl o Gynllun Gwastraff Cymru. Yn rhan o'r gwaith gwerthuso a gyflawnwyd, ystyriwyd y modd yr oedd y Cynllun yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'i gysondeb â'r Ddeddf honno, er nad oedd y Ddeddf wedi'i sefydlu pan ddatblygwyd y Cynllun. Mae'r gwerthusiad wedi amlygu rhai cyfyngiadau ar y data sydd ar gael sy'n atal asesiad llawnach. Fodd bynnag, y mae wedi cynnwys dadansoddiad manwl o gyfraniad economaidd cyllid Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, ac ystyriaeth o effaith economaidd gostyngiadau carbon.

44 Eunomia, **Mynegai Carbon Ailgylchu**, Hydref 2018.

45 Llywodraeth Cymru, **Astudiaeth o Gyflogaeth yn y Sector Gwastraff Trefol yng Nghymru**, Ionawr 2017.

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio

Atodiad 2 – Ein hasesiad o gynnydd mewn ymateb i argymhellion blaenorol ynghylch ailgylchu

Atodiad 3 – Systemau casglu cynghorau a pherfformiad ailgylchu

Atodiad 4 – Rhestr o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Atodiad 1 – Dulliau archwilio

Yn sail ar gyfer yr adroddiad hwn, cawsom ddata o ffynonellau dilys, fel WasteDataFlow, StatsCymru Bwletinau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac o'r set o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol.

Cawsom hefyd ddata ychwanegol ar gostau a pherfformiad o adroddiadau i'r Bwrdd Rhaglen Gweinidogol ar gyfer rheoli gwastraff ar ran y cynghorau a oedd yn cael eu cynrychioli yng Ngrŵp Meincnodi Rheoli Gwastraff Cymru Gyfan ac Is-grŵp Gwastraff y Gymdeithas Syrfewyr Sirol. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi hwyluso'r broses o lunio'r adroddiadau hynny yn rhan o waith a gomisiynwyd ar ran y grwpiau hyn. Mae'r gwaith meincnodi hwnnw wedi canolbwyntio ar wahanol elfennau o wasanaethau rheoli gwastraff y cynghorau bob blwyddyn, ac rydym wedi defnyddio'r data a gasglwyd yn fwyaf diweddar ym mhob achos.

Yn ogystal â hynny, buom yn ymchwilio i bapurau a gyhoeddwyd gan ymgynghorwyr rheoli gwastraff, gan gynnwys Eunomia a Ricardo-AEA. Cawsom hefyd wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Zero Waste Scotland, ac oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru.

Buom yn siarad â swyddogion rheoli gwastraff Llywodraeth Cymru, a hefyd yn gofyn barn y canlynol:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Sefydliad Rheoli Gwastraff Siartredig;
- Cymdeithas Syrfewyr Sirol - y corff sy'n cynrychioli rheolwyr gwastraff awdurdod lleol yng Nghymru;
- Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau; a'r
- Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol - sefydliad proffesiynol sy'n cynrychioli diwydiant gwastraff ac adnoddau eilaidd y DU.

Atodiad 2 – Ein hasesiad o gynnydd mewn ymateb i argymhellion blaenorol ynghylch ailgylchu

Yn rhan o'n gwaith, rydym wedi ystyried y camau a gymerodd Llywodraeth Cymru i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn flaenorol ym mis Chwefror 2012 ar **Gyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff**. Yn yr un modd, rydym wedi ystyried y camau a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan Bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol ar yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2014 ar **Ailgylchu yng Nghymru**.

Lle nodir isod fod argymhelliad 'wedi'i weithredu'n rhannol', yr hyn a olygir yw bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ofynion yr argymhelliad dan sylw, ac wedi gweithredu rhywfaint, ond nad yw holl gamau gweithredu gofynnol yr argymhelliad wedi'u gweithredu. Lle nodir isod fod argymhelliad 'heb ei weithredu', mae'n bosib y rhoddwyd ystyriaeth gychwynnol iddo, ond na chafwyd unrhyw gynnydd sylweddol.

Argymhellion o astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn 2012 **Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff**

Argymhelliad blaenorol	Statws
Argymhelliad 1 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio'n llawer mwy effeithiol i sicrhau y cynhelir asesiad perfformiad annibynnol o'r dulliau a ddefnyddir i gasglu gwastraff ailgylchadwy wrth ymyl y ffordd ym mhob awdurdod lleol. Yn arbennig, dylai Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: **a** sefydlu Bwrdd neu gorff tebyg a all gynllunio a chynnal asesiad annibynnol a gwrthrychol; **b** sicrhau bod yr asesiad yn dilyn arfer da ac yn ystyried pob agwedd ar gynaliadwyedd; ac **c** adeiladu consensws drwy gytuno ar y meini prawf a'r safonau sy'n sail i'r asesiad â rhanddeiliaid allweddol.	**Wedi'i weithredu'n rhannol**

Argymhelliad blaenorol	Statws
Argymhelliad 2 Os nad yw system gasglu awdurdod lleol yn cyrraedd safonau'r asesiad hwn, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol gytuno ar gynllun mesuradwy i gyrraedd y safonau asesu perfformiad a bodloni'r amserlen.	**Wedi'i weithredu'n rhannol**
Argymhelliad 3 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi'r cyfraddau ailgylchu a chompostio cyfunol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn pennu a oes gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad awdurdodau trefol, awdurdodau gwledig a'r rheini yn y cymoedd yn bennaf. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r dadansoddiad hwn ynghyd â gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol wrth bennu targedau ailgylchu yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru ailgyfeirio a thargedu cymorth ar gyfer unrhyw awdurdodau lleol y mae'r dadansoddiad yn dangos eu bod dan anfantais.	**Wedi'i weithredu'n rhannol**
Argymhelliad 4 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gydgysylltu a chyfeirio awdurdodau lleol i'r wybodaeth a'r canllawiau y mae arnynt eu hangen i ddatblygu'r capasiti i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd o ran ailgylchu, ac felly fel eu bod yn gallu rheoli hynt mentrau ailgylchu drwy ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.	**Gweithredwyd**
Argymhelliad 5 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu system sy'n dwyn ynghyd arfer da ac yn rhannu dysgu ag awdurdodau lleol ar wella perfformiad ailgylchu drwy gyfranogiad y cyhoedd. Dylai awdurdodau lleol fod yn fwy gweithredol o ran ceisio arfer da ym maes gwella eu gwasanaethau rheoli gwastraff a gwneud gwell defnydd ohono.	**Gweithredwyd**
Argymhelliad 6 Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru lunio dangosyddion perfformiad cyson i fesur cyfraddau ailgylchu ymhlith y cyhoedd.	**Heb ei weithredu**

Argymhelliad blaenorol	Statws
Argymhelliad 7 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ymgysylltu'n fwy â'r sector preifat er mwyn meithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o'r ffordd y mae grymoedd y farchnad a datblygiadau technolegol yn newid y diwydiant ailgylchu. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i ystyried targedau, cymhellion a deddfwriaeth i lywio'r sector preifat tuag at ganlyniadau gorau posibl cynaliadwyedd, gwerth am arian a derbyn ailgylchu trefol ymhlith y cyhoedd.	**Wedi'i weithredu'n rhannol**
Argymhelliad 8 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi cynlluniau wrth gefn fel ei bod yn barod i gymhwyso cymhellion neu gosbau ariannol mewn perthynas â'r cyhoedd os na fydd yn lleihau'r gwastraff a gaiff ei gynhyrchu ganddo neu'n ailgylchu neu'n compostio ei wastraff i raddau digonol mewn ymateb i ymdrechion i ddwyn perswâd ac addysgu pobl. Fodd bynnag, dim ond os bydd pob dull arall o gyflawni targedau dargyfeirio gwastraff yr UE neu ganlyniadau rheoli gwastraff cynaliadwy allweddol Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned wedi methu y dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn.	**Wedi'i weithredu'n rhannol**

Argymhellion ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn 2014 i **Ailgylchu yng Nghymru**

Argymhelliad blaenorol	Statws
Argymhelliad 1 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o'r 'Glasbrint Casgliadau' a'r dystiolaeth y mae'n seiliedig arni. Wrth gomisiynu'r adolygiad hwn, dylai'r Llywodraeth: • sicrhau bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhan o lunio'r cylch gorchwyl a dewis yr adolygydd; • cynnwys dadansoddiad o'r data diweddaraf ar gyfraddau gwrthod a chyrchfan deunyddiau y gellir eu hailgylchu o bob dull casglu; a • chwblhau'r adolygiad erbyn diwedd mis Mawrth 2016, er mwyn iddo lywio'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i gyrraedd y targed o 64% yn 2019/20.	**Gweithredwyd**
Argymhelliad 2 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog cydweithio rhwng awdurdodau lleol wrth adnewyddu contractau ar gyfer darparu offer i gartrefi ar gyfer casglu gwastraff y gellir ei ailgylchu.	**Gweithredwyd**
Argymhelliad 3 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y wybodaeth am ble anfonir gwastraff a gesglir o gartrefi ar gael i'r cyhoedd.	**Gweithredwyd**
Argymhelliad 4 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i dargedau sy'n seiliedig ar bwysau ac a ydynt yn cael unrhyw effaith anfwriadol ar leihau ôl troed ecolegol gwastraff. Dylid cwblhau hyn erbyn diwedd 2015.	**Heb ei weithredu**

Argymhelliad blaenorol	Statws
Argymhelliad 5 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r berthynas rhwng y rhagamcanion ar gyfer lleihau gwastraff; incwm awdurdodau lleol o wastraff; a gallu awdurdodau lleol i gyrraedd eu targedau ailgylchu yn y cyfnod hyd at 2019/20 ac yna 2024/25. Dylid cwblhau hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2016.	**Heb ei weithredu**
Argymhelliad 6 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r achos o blaid sefydlu 'brocer' cenedlaethol ar gyfer gwerthu deunydd ailgylchu ar ran awdurdodau lleol ledled Cymru. Dylai'r Llywodraeth gyhoeddi ei ganfyddiadau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2015.	**Gweithredwyd**
Argymhelliad 7 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau buddsoddi mewn ymgyrch genedlaethol i helpu i gynyddu cyfraddau ailgylchu, gan gynnwys hybu dealltwriaeth o'r angen i leihau ôl troed ecolegol gwastraff a phwysigrwydd mesurau eraill, yn enwedig lleihau gwastraff.	**Gweithredwyd**

Atodiad 3 – Systemau casglu cynghorau a pherfformiad ailgylchu

Dangosyn 11 – y brif system gasglu a ddefnyddir ar hyn o bryd ym mhob cyngor ynghyd â'r perfformiad ailgylchu rhwng 2012-13 a 2017-18

Cyngor	Y prif ddull casglu presennol ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy[1]	Cyfradd ailgylchu (%)[2]					
		2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
Blaenau Gwent	G	**51.2**	54.8	**50.3**	**48.7**	**56.8**	**56.0**
Pen-y-bont ar Ogwr	G	57.1	56.5	57.1	59.0	**57.9**	68.6
Caerffili	FfG	57.1	57.6	54.6	61.9	65.5	66.7
Caerdydd	FfG	52.2	**49.7**	53.4	58.2	58.1	58.3
Sir Gaerfyrddin	FfG	53.8	55.7	59.6	63.5	66.2	63.6
Ceredigion	FfG	53.6	58.4	61.6	68.1	70.1	63.7
Conwy	G	56.4	56.3	59.1	59.7	62.6	63.7
Sir Ddinbych	FfG	58.0	63.2	65.9	62.4	64.7	64.2
Sir y Fflint	G	54.9	55.1	55.0	58.5	68.2	67.6
Gwynedd	G	**51.2**	54.0	55.1	58.7	61.1	60.3
Ynys Môn	G	55.2	54.4	55.2	59.5	65.8	72.2
Merthyr	G	**49.1**	**48.2**	**51.2**	61.6	65.2	62.7
Sir Fynwy	DFf	55.5	62.9	63.2	61.9	68.7	65.8
Castell-nedd Port Talbot	G	**48.3**	54.0	58.1	58.3	62.8	60.5
Casnewydd	G	**49.2**	**51.7**	52.0	**57.1**	61.4	59.8
Sir Benfro	DFf	53.1	60.3	65.4	64.9	65.3	**57.0**
Powys	G	**50.9**	52.5	52.1	59.1	65.2	60.4
Rhondda Cynon Taf	DFf	**46.2**	**49.3**	53.8	60.5	64.4	61.3
Abertawe	AFf	**47.9**	52.8	56.7	59.5	63.7	63.3
Torfaen	DG	**47.1**	52.3	52.7	**57.4**	63.6	60.6
Bro Morgannwg	FfG	54.5	54.8	56.0	64.5	65.3	63.2
Wrecsam	G	52.8	54.7	56.4	62.3	68.7	65.4
Cyfradd Cymru		**52.3**	**54.3**	**56.2**	**60.2**	**63.8**	**62.7**
TTarged ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru		52.0	52.0	52.0	58.0	58.0	58.0
Ystod - y gyfradd ailgylchu isaf i'r uchaf		11.8	15.0	15.6	19.4	13.3	16.2

Tudalen y pecyn 244

Nodiadau:

1 Ffrwd sengl gymysg (FfG), dulliau aml-ffrwd (AFf), dwy ffrwd (DFf), Didoli ar Garreg y Drws gan gydymffurfio â'r Glasbrint Casgliadau (G), Didoli ar Garreg y Drws ond heb gydymffurfio â'r Glasbrint (DG) Mae'r data ar gyfer 2016-17.

2 Dangosir y ffigurau mewn print trwm ar yr achlysuron pan fethodd cynghorau unigol â chyrraedd y targed ailgylchu.

Ffynhonnell: daw'r cyfraddau ailgylchu o Fwletinau Ystadegol Llywodraeth Cymru a gyhoeddir yn flynyddol rhwng 2013 a 2018, a daw'r dulliau casglu o'r **Adroddiad Data Cyllid Gwastraff 2015-16** gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ionawr 2017.

Atodiad 4 – Rhestr o'r Termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

Ailbrosesydd – unigolyn sy'n cyflawni un neu fwy o weithgareddau adfer neu ailgylchu.

Ailddefnyddio – defnyddio cynnyrch eto i'r un defnydd neu i ddefnydd gwahanol, efallai ar ôl gwneud rhywfaint o waith trwsio neu ailgyflyru (paratoi i ailddefnyddio).

Ailgylchu – ailbrosesu gwastraff, gan greu naill ai'r un cynnyrch neu gynnyrch gwahanol. Gellir ailgylchu llawer o wastraff diwydiannol nad yw'n beryglus, fel papur, gwydr, cardbord, plastigau a metel sgrap. Gellir defnyddio prosesau arbenigol i ailgylchu gwastraff peryglus fel hydoddyddion.

Ailgylchu dolen gaeedig – ailgylchu lle bydd y deunyddiau a ailgylchir yn cael eu defnyddio'n barhaus i'r un diben, er enghraifft, potel wydr sy'n cael ei hailgylchu i greu cynnyrch gwydr newydd yn hytrach na'i hisraddio (er enghraifft, ei defnyddio fel agreg).

Allyriadau nwyon tŷ gwydr – allyriadau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd drwy'r effaith 'tŷ gwydr' lle bo'u crynodiadau atmosfferig yn uwch na lefelau penodol. Maent yn cynnwys allyriadau carbon deuocsid, methan ac ocsid nitrus, hyfrofflworocarbonau, perfflworocarbonau a sylffwr hecsafflworid.

Canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref - safleoedd a ddarperir gan gyngor i'w breswylwyr, ac weithiau i fasnachwyr, er mwyn ailgylchu a gwaredu gwastraff trefol, gan gynnwys nwyddau swmpus fel gwelyau, poptai a gwastraff gardd.

Casgliad cymysg – gelwir hyn hefyd yn ailgylchu 'un ffrwd'. Mae'n golygu casglu deunyddiau ailgylchadwy mewn cerbyd un gofod cyn didoli'r deunyddiau hynny mewn cyfleuster ar wahân.

Casgliad dwy ffrwd/aml-ffrwd – bydd preswylwyr yn cael dau (neu fwy - gall hyn amrywio'n helaeth) o gynwysyddion ailgylchu i'w llenwi â gwahanol ddeunyddiau - papur a cherdyn yn y naill a phlastigau, gwydr a chaniau yn y llall fel arfer. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu cadw ar wahân, ond fe'u cesglir (fel arfer) ar un cerbyd sy'n cynnwys dwy siambr.

Casgliad wedi'i ddidoli ar garreg y drws – didoli deunyddiau ailgylchadwy ar garreg y drws i wahanol ofodau mewn cerbyd casglu arbenigol (yn cynnwys trefniadau i gasglu deunydd ailgylchu ar garreg y drws nad ydynt yn cydymffurfio â'r Glasbrint Casgliadau).

Compostio – proses aerobig, fiolegol, lle bydd gwastraff organig, fel gwastraff gardd neu wastraff bwyd yn cael ei drosi'n ddeunydd gronynnog sefydlog y gellir ei daenu ar dir i wella strwythur y pridd a'i gyfoethogi.

Compostio mewn rhenciau – cynhyrchu compost drwy bentyrru mater organig neu wastraff bioddiraddadwy mewn rhesi hir. Defnyddir rhenciau compostio er mwyn prosesu gwastraff gardd, fel toriadau glaswellt, tociadau a dail naill ai mewn amgylchedd awyr agored neu mewn ardaloedd mawr dan do lle gall y deunydd bydru ym mhresenoldeb ocsigen.

Cyfradd Ailddefnyddio/Ailgylchu/Compostio (diffiniad o'r targed statudol) – canran y gwastraff trefol a gynhyrchir mewn awdurdod lleol a gaiff ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio, wedi'i chyfrifo wrth ddosbarthu i'w dirlenwi neu i gontractwyr ailgylchu/compostio. Mae hyn felly'n seiliedig ar y swm o wastraff a anfonir i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, yn hytrach na'r swm a gesglir i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio.

Cyfradd dal – cyfanswm y gwastraff adferadwy a gaiff ei wyro i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu fel canran o gyfanswm y gwastraff adferadwy a gynhyrchwyd.

Dim Gwastraff – Mae Dim Gwastraff yn nod moesegol, economaidd, effeithlon a gweledigaethol, sy'n llywio pobl i newid eu ffordd o fyw a'u harferion er mwyn efelychu cylchoedd naturiol cynaliadwy, lle bydd yr holl ddeunyddiau a waredir wedi'u dylunio i droi'n adnoddau i'w defnyddio gan eraill. Mae Dim Gwastraff yn golygu dylunio a rheoli cynnyrch a phrosesau er mwyn osgoi a dileu, mewn modd systematig, dwysedd a gwenwyndra gwastraff a deunyddiau, cadw ac adfer yr holl adnoddau, a pheidio â'u llosgi neu eu claddu. Bydd gweithredu Dim Gwastraff yn fodd i ddileu'r holl ddeunydd a gaiff ei ollwng i'r tir, i'r dŵr neu i'r aer sydd yn bygwth iechyd y blaned, iechyd dyn neu iechyd anifeiliaid a phlanhigion. (Cynghrair Ryngwladol Dim Gwastraff www.zwia.org).

Effeithlonrwydd adnoddau – rheoli deunyddiau crai, ynni a dŵr er mwyn lleihau gwastraff a gostwng costau yn sgil hynny.

Glasbrint Casgliadau – y Glasbrint Casgliadau yw'r proffil gwasanaeth a argymhellir gan Lywodraeth Cymru er mwyn casglu gwastraff o aelwydydd. Cyflwynir adnoddau ailgylchadwy wedi'u didoli'n rhannol gan breswylwyr, cyn eu didoli ymhellach wrth eu casglu.

Gwastraff a gynhyrchir – y swm o wastraff a gynhyrchir mewn ardal benodol dros gyfnod penodol o amser.

Gwastraff bwyd – mae'r term hwn yn cyfeirio at yr elfen organig yng ngwastraff y cartref sydd yn deillio o fwyd, ee, croen llysiau, bagiau te, croen banana.

Gwastraff gweddilliol – y gwastraff sydd yn weddill ar ôl tynnu deunydd i'w ailgylchu neu ddeunydd compostio o'r ffrwd wastraff.

Gwastraff masnachol – gwastraff a gynhyrchir ar eiddo neu a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i ddibenion masnach neu fusnes. Mae Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012 yn rhestru gwastraff y dylid ei drin fel gwastraff masnachol.

Gwastraff sych ailgylchadwy – gwastraff trefol sydd fel arfer yn cynnwys poteli gwydr, caniau, tuniau a ffoil, plastigau, cerdyn a phapur a Tetrapaks. Nid yw'n cynnwys gwastraff bwyd a gardd.

Gwastraff trefol – yn yr adroddiad hwn mae hyn yn golygu 'gwastraff trefol awdurdod lleol', ac yn cyfeirio at wastraff y cartref (tua 85% fel arfer) a gwastraff arall (tua 15%) y mae cynghorau yn ei gasglu a'i waredu. Mae'n cynnwys casgliadau rheolaidd o aelwydydd, casgliadau ailgylchu penodol, casgliadau arbennig ar gyfer eitemau swmpus, gwastraff a dderbynnir mewn safleoedd amwynder dinesig a gwastraff a gesglir o ffynonellau ar wahân i aelwydydd (ee, rwbel, gweddillion o losgyddion, deunydd a gesglir ar ôl glanhau traethau a byrddau plaster). Nid yw gwastraff trefol awdurdodau lleol yn cynnwys cerbydau wedi'u gadael.

Gwastraff y cartref – yn cynnwys gwastraff o rawdiau casglu o gartrefi (gwastraff yn Atodlen 1 o Reoliadau Gwastraff a Reolir 1992), gwastraff o wasanaethau fel sgubo strydoedd, casgliadau gwastraff swmpus, casgliadau gwastraff peryglus o gartrefi, casgliadau ysbwriel, casgliadau gwastraff clinigol o gartrefi a chasgliadau gwastraff gardd ar wahân (gwastraff yn Atodlen 2 o Reoliadau Gwastraff a Reolir 1992), gwastraff o safleoedd amwynder dinesig a gwastraff a gesglir ar wahân i'w ailgylchu neu ei gompostio drwy gynlluniau cyflwyno/gollwng, cynlluniau o garreg y drws ac mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.

Lleihau gwastraff – mae lleihau gwastraff yn flaenoriaeth o'r broses weithgynhyrchu drwy wneud defnydd optimwm o ddeunyddiau crai (ac eilaidd) a phrosesau ailgylchredeg. Gall fod yn gost-effeithiol, o ran lleihau costau gwaredu, lleihau'r galw am ddeunyddiau crai, ac o ran costau ynni. Gall deiliaid tai leihau gwastraff ee, drwy gompostio gartref, ailddefnyddio cynnyrch a phrynu nwyddau ac arnynt lai o ddeunydd pecynnu.

Tudalen y pecyn 248

Newid yn yr hinsawdd – newid graddfa fawr a hirdymor ym mhatrymau tywydd neu dymheredd cyfartalog y blaned.

Ôl-troed carbon – cyfanswm y carbon deuocsid a gafodd ei ryddhau i'r amgylchedd yn sgil gweithgarwch unigolyn, sefydliad neu gymuned neilltuol.

Ôl-troed carbon wedi'i ymgorffori – swm sydd gyfwerth ag allyriad carbon sy'n cyfrifo effaith y defnydd o adnoddau a chanlyniadau yr hyn y bydd pobl yn ei brynu, yn ei ddefnyddio a'i daflu i ffwrdd wedyn o safbwynt yr amgylchedd, gan ystyried y canlyniadau hynny drwy gydol y gadwyn gyflenwi.

Ôl troed ecolegol – mae'r fethodoleg ôl-troed ecolegol yn cyfrifo faint o dir sydd ei angen i fwydo, darparu adnoddau, cynhyrchu ynni ac amsugno'r llygredd (a'r gwastraff) a gynhyrchir gan ein cadwynau cyflenwi.

Safle cyflwyno – man ailgylchu lle gall y cyhoedd gyflwyno deunydd i'w ailgylchu, ee, banciau poteli a chaniau. Maent fel arfer wedi'u lleoli yng nghanolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, mewn meysydd parcio archfarchnadoedd a lleoliadau tebyg.

Safleoedd tirlenwi – unrhyw ardaloedd o dir lle caiff gwastraff ei waredu. Bydd safleoedd tirlenwi yn aml wedi'u lleoli mewn hen byllau neu chwareli. Mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw ofod ar gael yn y tir, bydd y tir weithiau'n cael ei godi, gan waredu'r gwastraff ar ben y tir a llunio'r dirwedd dros y gwastraff hwnnw.

Treuliad anaerobig – Proses fiolegol lle bydd gwastraff bioddiraddadwy fel gwastraff bwyd, yn cael ei annog i bydru heb ocsigen mewn cynhwysydd caeedig. Mae'n cynhyrchu carbon deuocsid, methan (y gellir ei ddefnyddio fel tanwydd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy) a solidau / toddiannau a elwir yn grynodiad, y gellir ei ddefnyddio fel gwrtaith.

Trin gwastraff – prosesau ffisegol, thermol, cemegol neu fiolegol, gan gynnwys didoli, sy'n newid nodweddion y gwastraff er mwyn lleihau ei ddwysedd neu ei wneud yn fwy diogel, ei gwneud hi'n bosibl ei drin neu wella adferiad.

Troi gwastraff yn ynni – technolegau sy'n cynnwys treuliad anaerobig, llosgi uniongyrchol, defnyddio tanwydd eilaidd adferedig (allbwn yn sgil prosesau trin mecanyddol a biolegol), pyrolysis a nwyeiddio. Mae unrhyw dechnoleg benodol yn fwy buddiol os gellir adfer gwres a thrydan. Mae Cyfarwyddeb y Fframwaith Gwastraff yn ystyried bod llosgi gwastraff mewn modd ynni-effeithlon (lle defnyddir gwastraff yn bennaf fel tanwydd neu fel ffordd arall o gynhyrchu trydan) yn weithgarwch adfer ar yr amod y cydymffurfir â meini prawf penodol, sy'n cynnwys effeithlonrwydd ynni.

Tudalen y pecyn 249

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

23/01/2019

Dear Adrian

Response to the Report of the Wales Audit Office on Waste Management in Wales: Municipal Recycling

I welcome publication of the above report and am pleased to set out the Welsh Government's response to the four recommendations at Annex A.

With best wishes.

Yours sincerely



Andrew Slade
Director General
Economy, Skills and Natural Resources

Annex A

Recommendation 1

The Welsh Government should work with councils to understand better the basis of the variation in spending on waste management services that are fundamentally the same and ensure that waste management costs are accounted for in a consistent way.

Response: Accepted

The Welsh Government funds the Welsh Local Government Association (WLGA) to collect financial data from Local Authorities through its Waste Improvement Programme (WIP). The information collected by WLGA is published as annual financial data on its website.

Consistency of reporting financial information is important but also difficult to ensure, as the WAO will know from its participation in the waste benchmarking group for several years. The Welsh Government will work with Local Authorities, WLGA, the Waste and Resources Action Programme (WRAP) and others to improve the consistency of reporting on the costs of waste management services. This will include analysis to better understand variations in costs and performance in Local Authority waste services, including factors such as service configurations, demographics and rurality.

The Welsh Government will progress this work over the next two years with a view to publishing an assessment in spring 2021.

Recommendation 2

When undertaking its further analysis to understand better the reasons for differences in councils' reported costs, and the impact on costs where councils have adopted the Collections Blueprint, we recommend that the Welsh Government:

- *explores how the cost of collecting dry recyclables may affect the overall cost of providing kerbside waste management services to households; and*

- *compares the actual costs with the costs modelled previously as part of the Welsh Government – commissioned review of the Collections Blueprint for councils that now operate the Collections Blueprint.*

Response: Accepted

The Welsh Government will work with Local Authorities, the WLGA and the WRAP Collaborative Change Programme (CCP) team to look at the costs of dry recyclable collections, food waste collections and other kerbside waste management services to households.

The Welsh Government will work with the WRAP CCP team to compare the modelling of costs prior to service changes and the actual costs of services after changes are made. This will include a review of the costs of Local Authorities which are now operating services aligned with the Collections Blueprint.

The Welsh Government will progress this work over the next two years with a view to publishing an assessment in spring 2021. The assessment will include additional Local Authorities which have switched to the Collections Blueprint and will also attempt to take account of the difference between short-term spikes in costs/performance relative to those encountered in more mature services.

Recommendation 3

We recommend that the Welsh Government replace or complement the current target to recycle, compost and reuse wastes with performance measures to refocus recycling on the waste resources that have the largest impact on carbon reduction, and/or are scarce. We recognise that the Welsh Government may need to consider the affordability of data collection for any alternative means of measurement.

Response: Accepted

This will be considered as part of the Consultation on the Review of 'Towards Zero Waste' in 2019. This will include a consideration of the affordability of the necessary data gathering for any alternative means of measurement.

Recommendation 4

The Welsh Government should demonstrate in the revised waste strategy that not only is it possible to recycle a greater proportion of municipal waste, but how doing so maximises its contribution to achieving its sustainable development objectives.

Response: Accepted

The consultation on a revised waste strategy and development of a circular economy route map will be accompanied by an Integrated Impact Assessment that will include how the proposed policies and targets will maximise the contribution towards the seven goals set under the Well-being of Future Generations Act.

This work will be completed during 2019.

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus / Public Accounts
Committee PAC(5)-12-19 P11

Mawrth 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rheoli Gwastraff yng Nghymru – Atal Gwastraff

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Sian Davies, Jeremy Morgan ac Andy Phillips o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Tudalen y pecyn 256

Cynnwys

Crynodeb 5

Argymhellion 11

1 Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun ar gyfer atal gwastraff, ond mae wedi canolbwyntio mwy o'i sylw a'i hadnoddau ar ailgylchu 13

Mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ganolbwyntio ar gynyddu ailgylchu trefol, ond roedd gan atal gwastraff broffil is yn gyffredinol, serch rhai mentrau pwysig 14

Er bod y Rhaglen Atal Gwastraff yn adlewyrchu arferion cyffredin, mae cyfleoedd i ddysgu o ddulliau gweithredu mewn mannau eraill ac i wneud mwy o ddefnydd o ddeddfwriaeth a chymelliadau ariannol 17

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid sylweddol i gynghorau ar gyfer eu gwasanaethau rheoli gwastraff trefol, ond mae'r rhan fwyaf o hwn wedi'i wario ar gefnogi ailgylchu, gydag ychydig iawn ohono wedi ei wario ar atal gwastraff 23

Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2018, rhoddodd Llywodraeth Cymru £13 miliwn i dri sefydliad dielw a oedd ag amcanion a oedd yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i, atal gwastraff 26

2 Mae'r data a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur perfformiad yn erbyn ei thargedau atal gwastraff uchelgeisiol o ansawdd amrywiol ac yn nodi cynnydd cymysg 30

Mae gan Lywodraeth Cymru ddata da ar wastraff trefol, ond ychydig iawn o ddata sydd ganddi ar y rhan fwyaf o'r mathau eraill o wastraff 31

Mae'r data sydd ar gael ar faint o wastraff a gynhyrchir yn nodi cynnydd cymysg o ran cyflawni targedau atal gwastraff uchelgeisiol Llywodraeth Cymru 35

Atodiadau 45

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 46

